

# Cyngor Cymuned Llandderfel.

Cyfarfu'r Cyngor Nos Fawrth, Medi 6ed 2016 yn Neuadd Sarnau. Yn bresennol oedd Gary Thomas (cadeirydd), Eilir Rowlands, Eifion Davies, Iolo Evans, Gwenda Evans, Gethin Morris, Maldwyn Jones, Alwyn Jones, Cyng. Elwyn Edwards a'r clerch.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Dewi Pritchard, Tina Davies a Gwenda Morris.

## Datgan Buddiant.

Ni chofnodwyd unrhyw fuddiant.

### i) Materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf.

#### a) Cynghorwr newydd.

Cafwyd cadarnhad fod y cyfnod ymgynghori wedi dod i ben a bod gan y Cyngor yr hawl i gyfethol aelod newydd. Cytunodd y cynghorwyr i wneud ymholiadau i weld os oedd gan unrhyw un diddordeb mewn ymuno a'r Cyngor.

#### b) Biniâu Halen.

Ym mis Gorffennaf roedd y Bartneriaeth wedi gwahodd y Cyng. John Wyn Jones draw at y cynghorau i drafod y bwriad i godi tal ar y Cynghorau Cymuned i ail lenwi'r biniâu halen. Nid oedd wedi ymateb yn nol i'r llythyr.

#### c) Mabwysiadu Rheoliadau Ariannol.

Cytunwyd i fabwysiadu'r diweddariad i'r rheoliadau ariannol.

ch) Ymateb i'r cwynion o'r cyfarfod diwethaf.

i) Goryrru heibio Capel a Neuadd Cwmtirmynach – roedd swyddog Cyngor Gwynedd wedi cyfarfod a'r cynghorwyr ac wedi cytuno i osod arwyddion rhybudd bob ochr i'r safle a pheintio Araf/Slow ar y ffordd.

ii) Diogelwch gyrwyr ar yr A494 Corwen i Bala - adroddodd y clerch ei bod wedi cysylltu â Liz Saville Roebrts, AS a Dafydd Elis-Thomas, AC i ofyn am eu cymorth i gael y Llywodraeth i wneud gwelliannau i'r ffordd, A494. Cafwyd cadarnhad yn syth eu bod yn ymwybodol o'r mater ac wedi gofyn am adroddiad diogelwch gan Heddlu'r Gogledd ac y byddant yn dod a'r mater i sylw Gweinidog Llywodraeth Cymru.

Cytunwyd hefyd i ofyn i'r Heddlu gymryd fwy o ofal wrth ail-gyfeirio cerbydau ar hyd y ffyrdd gwledig pan mae damwain ar y A5 neu A494. Oherwydd diffyg gwybodaeth yr heddlu roedd cerbydau yn cael eu cyfeirio at ddefnyddio'r ffyrdd o'r ddau gyfeiriad a gan nad oedd llawer o fannau pasio roedd ceir yn mynd i'r ffosydd ayyb.

iii) Problem parcio ar gyffordd y Sgwâr Trefalgar, Llandderfel – er i'r clerch arddangos hysbysebion yn gofyn am gydweithrediad y trigolion i gadw'r gyffordd yn glir roedd y broblem yn parhau. Cytunwyd i gysylltu â'r heddlu am gyngor.

iv) Blwch postio Llanfor - roedd y clerch wedi ail gysylltu â'r Post Brenhinol ynglŷn â diweddaru blwch postio'r pentref cafwyd cadarnhad nad oedd bwriad i newid y blwch gan mae ychydig iawn o ddefnydd oedd ohono. Roedd y clerch wedi cysylltu yn nol i egluro mae maint y blwch oedd y rheswm tu ôl cais y cyngor ac nid oedd posib postio amlenni mawr ac efallai dyna'r rheswm bod cyn lleied yn ei ddefnydd.

### ii) Gohebiaeth.

Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:-

#### a) Partneriaeth Penllyn / Cwmni Pum Plwy Penllyn.

i) Cofnodion y cyfarfod blynyddol, 21/7/16 a chais gan Huw Antur i ymweld â'r Cyngor i drafod cynlluniau'r Bartneriaeth a Chwmni Pum Plwy Penllyn. Cytunwyd i'w wahodd i'r cyfarfod ym mis Hydref.

## b) Cyngor Gwynedd

i) Rhaglen Waith yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol ar gyfer Gorffennaf a Medi.

## c) Amrywiol

i) Cymru'n Cofio – gwybodaeth am y digwyddiadau i goffau canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf yng Nghymru.

ii) Swyddfa Archwilio Cymru – Copi o'r 'Cynllun Ffioedd 2017-18'.

iii) Parc Cenedlaethol Eryri - Adolygu Cynllun Datblygu Lleol - Derbyniwyd gwybodaeth am eu proses adolygu a chais am wybodaeth am dir ychwanegol i ddiwallu anghenion datblygu'r Parc Cenedlaethol ar gyfer y 15 mlynedd nesaf.

iv) Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru, Gwarchodfa Natur Gors y Sarnau:- Gwybodaeth am eu diwrnod agored yn y Sarnau, 10/9/16.

## iii) Ceisiadau Cynllunio

a) Derbyniwyd cais am wybodaeth ar y ceisiadau canlynol cyn iddynt gael eu cyflwyno:-

i) C16/0900/04/YM - Newid defnydd cyn capel i ddefnydd busnes. Capel Saron, Llandderfel.

ii) Amnewid 35 lleiniau Carafanau teithiol presennol gyda 30 carafanau sefydlog newydd, creu man chwarae newydd, tirlunio medal helaeth a chreu dwy fynedfa. Maes Carafanau Llawr Betws, Glanrafon, Corwen.

Nid oedd unrhyw wrthwynebiad i gynlluniau Capel Saron ond roedd pryder am yr effaith y byddai datblygiad Maes Carafanau Llawr Betws yn cael Cymreigdod yr ardal ac os oedd gynlluniau eraill i ehangu yn y dyfodol.

b) Derbyniwyd y ceisiadau cynllunio canlynol:-

C16/0815/04/LL – Codi Modurdy arwahan. Ty'n Rhyd, Maerdy, Corwen.

C16/1018/04/LL - Codi estyniad deulawr i gefn yr annedd prresennol. Tŷ Cipar, Cwmtirmynach.

Cytunwyd i'w cefnogi gan nodi ar gais Tŷ Cipar bod y Cyngor yn gefnogol i'r bwriad o ehangu'r tŷ os oedd y cynllun yn dderbyniol o dan y canllawiau cynllunio.

c) Derbyniwyd, er gwybodaeth, copi o Dystysgrif Cyfreithlondeb ar gyfer defnydd neu ddatblygiad mewn bodolaeth sy'n caniatáu tir ger Abermynach, Frongoch gael ei ddefnyddio i osod i fyny at 8 pabell o 1af o Fai hyn 30 o Fedi mewn unrhyw flwyddyn.

## iv) Materion Ariannol.

a) Derbyniwyd ail randal y Praesept, £4450.00 ac ad-daliad TAW o £339.00

b) Cytunwyd i dalu'r canlynol:-

i) TWE

## v) Materion lleol.

### a) Cyflwr y B4501 drwy Cwmtirmynach.

Gan fod amryw o geir wedi cael difrod i'w teiars yn ddiweddar roedd y clerwr wedi cysylltu â'r adran briffyrdd. Roedd y swyddog wedi archwilio'r ffordd ac wedi trefnu i'r gweithlu wneud ychydig o waith atgyweirio.

### b) Cwyn am y goeden Ywen ym mynwent Llanfor.

Roedd y clerwr wedi derbyn cwyn bod canghennau'r goeden yn dod drosodd i'r fynwent ac nid oedd yn bosib gweld rhai o'r cerrig beddi. Roedd y Cyng. Alwyn Jones wedi ymweld â'r fynwent a chadarnhaodd bod angen torri canghennau'r goeden. Cytunwyd i wneud archwiliad llawn o'r fynwent er mwyn canfod faint o glirio ychwanegol oedd angen ei wneud hefyd.

c) Torri glaswellt ar y llwybr troed o Lanfor i Bala.

Roedd y clerc wedi derbyn cwyn bod angen torri glaswellt ar ochr y llwybr ac wedi cael ei basio'n mlaen i'r adran briffyrdd. Roedd y glaswellt wedi cael ei dorri erbyn hyn.

ch) Neuadd y Cyfnod.

Cytunwyd i ofyn i'r Cyngor Tref os oeddynt wedi clywed am unrhyw gynlluniau i dacluso neu ddatblygu'r Neuadd gan fod cyflwr yr adeilad yn dirywio.

d) Gwasanaeth ailgylchu.

Gofynnwyd i'r clerc ofyn i'r adran ailgylchu atgoffa'r gweithlu bod angen casglu'r deunydd ailgylchu o amryw o anheddau yn Llandderfel gan fod y casgliadau yn anghyson iawn. Cafwyd cwynion hefyd bod y gweithwyr yn taflu'r bocsys yn nol ar ôl eu gwagu ac yn eu malu.

dd) Car wedi ei adael ger Cae Garnedd, Celyn.

Gofynnwyd i'r clerc hysbysu'r adran briffyrdd bod car wedi cael ei adael yn y gilfan ers peth amser.

e) Llyn Celyn.

Gofynnwyd i'r clerc gysylltu â Chyfoeth Naturiol Cymru i nodi bod y Cyngor yn bryderus am lefel y dŵr yn y llyn. Teimlai'r cynghorwyr bod lefel y dŵr yn uchel iawn ar gyfer yr amser yma o'r flwyddyn ac y gallai achosi problemau yn nes ymlaen yn y gaeaf.

f) Torri ochrau'r ffyrdd.

Roedd y Cyng. Elwyn Edwards wedi cysylltu â'r adran briffyrdd ynglŷn â'r nifer o gwynion a dderbyniwyd am wasanaeth y contractwr torri ochr y ffyrdd eleni. Roedd rhai mannau heb gael eu torri o gwbl ac roedd llanast wedi cael ei adael ar ôl mewn mannau eraill gan fod peiriannau'r contractwr yn rhy fawr i ffyrdd gwledig yr ardal. Cytunwyd i yrru at adran briffyrdd Cyngor Gwyned i ategu'r sylwadau gan ofyn iddynt gofio'r cwynion yma wrth ddewis contractwyr yn y dyfodol.

**Cynhelir y Cyfarfod nesaf ar Nos  
Fawrth, Hydref 4ydd yn Ffestri  
Glanrafon am 7.00 y.h.**